**PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** **6ed CHWEFROR 2019**

# RHAGLEN

**DATGAN BUDDIANNAU**

**Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

**2. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – IONAWR 2019**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**3. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

**4. ADRODDIAD PERFFORMIAD BUDDSODDIADAU**

Derbyn adroddiad cynnydd ar fuddsoddiadau'r Cyngor (copi'n amgaeëdig).

**5. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2019/20**

Derbyn a phenderfynu ar gyd-adroddiad Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (copi'n amgaeëdig).

**6. ARCHWILIWR CYFFREDINOL CYMRU**

**(1) RHEOLAETH A LLYWODRAETHU ARIANNOL – CYNGHORAU TREF A CHYMUNED 2017-18**

**(2) TREFNIADAU ARCHWILIO MEWNOL MEWN CYNGHORAU TREF A CHYMUNED YNG NGHYMRU**

Derbyn yn ffurfiol ac ystyried y dogfennau uchod.

**D.S. Oherwydd maint y dogfennau, nid yw copïau caled wedi eu dosbarthu gyda'r rhaglen ond gellir eu lawrlwytho yn:**

**https://www.audit.wales/publication/financial-management-and-governance-town-and-community-councils-2017-18**

**https://www.audit.wales/publication/internal-audit-arrangements-town-and-community-councils-wales**

**Os ydych angen copi caled o'r adroddiad, hysbyswch y swyddfa cyn 4.00pm ar ddydd Mawrth 5ed Chwefror os gwelwch yn dda.**

## 7. GWAHODDIAD I YMWELD Â'R TŶ CLWB NEWYDD A CHYFLEUSTERAU CYSYLLTIEDIG YNG NGHLWB RYGBI'R RHYL A CHYFARFOD SWYDDOGION Y CLWB

Derbyn adroddiad llafar Clerc y Dref.

## 8. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH 2018-2033

Derbyn manylion (copi'n amgaeëdig) sesiynau galw heibio ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned mewn perthynas â dyraniad tir yn y sir yn y cynllun datblygu newydd arfaethedig.

## 9. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

## 10. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

## 11. COFNODION YR IS-BWYLLGOR ASESU RISG

Derbyn cofnodion cyfrinachol yr Is-bwyllgor Asesu Risg a gynhaliwyd ar 28ain Ionawr 2019, a'r argymhellion ynddynt.

## 12. CYNLLUN GOLEUO'R NADOLIG 2018

Derbyn adroddiad llafar gan Glerc y Dref mewn perthynas â nifer o faterion a godwyd.

## 13. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.